# HARRIS, GRIFFITH (1811 - 1892), cerddor

**Enw:** Griffith Harris
**Dyddiad geni:** 1811
**Dyddiad marw:** 1892
**Rhiant:** Mary Harris
**Rhiant:** Griffith Harris
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd, yn ôl carreg fedd y teulu, yng Nghaerfyrddin ar y 15 Gorffennaf 1811, mab Griffith a Mary Harris. Cadwai siop ddillad yn y dref. Yr oedd yn gerddor da, ac yn arweinydd y canu yng nghapel (Methodistiaid Calfinaidd) Heol D r. Bu yn arweinydd côr y dref hefyd. Cyhoeddodd yn 1849 gasgliad o donau dan yr enw *Haleliwia* yn cynnwys 260 o donau, ac, yn 1855, *Haleliwia Drachefn*; y mae'r ddau gasgliad yn bwysig am y ceir ynddynt yr alawon cysegredig cynnar a genid yn niwygiadau crefyddol y 18fed ganrif. Bu farw 1 Tachwedd 1892 a chladdwyd ef ym mynwent capel Heol-y-d r, Caerfyrddin.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738071

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu